

Gwerthusiad o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC) – Arolwg Ar-lein

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Prifysgol Bangor i archwilio a choladu adroddiadau'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC). Bydd yr ymchwili hon hefyd yn archwilio pa mor hygyrch yw'r adroddiadau hyn i ymarferwyr ac ymchwilwyr.

Fel rhan o'r cam hwn o'r ymchwili, mae Prifysgol Bangor yn bwriadu cynnal arolwg gyda gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymryd rhan yn y PYPC.

Bydd yr arolwg yn cynnwys ysgolion yn ateb cwestiynau am y prosiect PYPC. Bydd y tîm ymchwili yn defnyddio'r offeryn arolwg ar-lein Jisc a dylai gymryd llai na 15 munud i'w gwblhau. Gellir cwblhau'r arolwg naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn dibynnu ar ddewis yr ymatebydd.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwili. Fodd bynnag, bydd Prifysgol Bangor yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir ac yn ddienw'r data crai cyn ei rannu gyda Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn llywio'r prosiect ymchwili hwn a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Mae'r astudiaeth ymchwili hon wedi cael ei chymeradwyo'n foesebol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwili yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Bangor. Y cyswllt ar gyfer yr ymchwili hon ym Mhrifysgol Bangor yw:

Dr Emma Tiesteel: e.tiesteel@bangor.ac.uk

Hysbysiad Preifatrwydd

Pa ddata personol sydd gennym a sut ydym ni'n cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at uniaithydd'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) i Brifysgol Bangor fel unigolyn sydd â diddordeb proffesiynol yn y pwnc ymchwil. Mae gan Llywodraeth Cymru eich manylion cyswllt oherwydd eich bod yn un o'r bobl rydym yn ymgysylltu â nhw fel rhan o'n gwaith ar y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC). Bydd Prifysgol Bangor ond yn defnyddio'ch cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn at ddibenion yr ymchwil hon, i gysylltu â chi i drefnu cyfweiliad.

Ni fydd unrhyw ddata personol y gellir ei adnabod nac enwau ysgolion yn cael eu casglu fel rhan o hyn, ac wrth gwblhau'r arolwg, ni chaiff eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP eu cofnodi'n awtomatig, felly mae'ch ymatebion yn ddienw. Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol ac rydych yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

Ar ddiwedd yr arolwg, mae opsiwn i adael eich manylion cyswllt i gymryd rhan mewn trafodaeth bellach am eich profiadau o PYPC. Bydd y data hwn ond yn cael ei ddefnyddio i gysylltu â chi ar gyfer y drafodaeth bellach a chaiff ei ddinistrio ar ôl i'r data gael ei gasglu. Caiff hyn ei gofnodi mewn ffurflen arolwg ar wahân fel bod eich ymatebion yn parhau i fod yn ddienw.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus—hynny yw, gweithredu ein hawdurdod swyddogol i gyflawni swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Bydd cymryd rhan yn helpu sicrhau bod y prosiect ymchwil yn adlewyrchu barn ystod eang o randdeiliaid, gan ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o dueddiadau presennol a dulliau posibl o newid.

Pa mor ddiogel yw'ch data personol?

Cedwir gwybodaeth bersonol a roddir i Brifysgol Bangor bob amser ar weinydd diogel, wedi'i ddiogelu gan system ddilysu ddwy gam Microsoft. Dim ond nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sydd â mynediad at y data. Bydd Prifysgol Bangor ond yn defnyddio'r data hwn at ddibenion ymchwil. Caiff yr arolwg ei gynnal gan JISC Online Surveys a chadwir y data ar weinydd JISC, sydd â thystysgrif Cyber Essentials ac yn cydymffurfio â UK GDPR.

Mae gan Brifysgol Bangor weithdrefnau ar gyfer delio ag unrhyw achos o dor-diogelwch data. Os bydd achos yn digwydd, bydd Prifysgol Bangor yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.

Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba hyd y byddwn ni'n cadw eich data personol?

Bydd Prifysgol Bangor yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad yw eisoes wedi'i ddileu yn cael ei ddileu gan Brifysgol Bangor dri mis ar ôl diwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd y data dienw yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru a gall hwn wedyn gael ei rannu â rhanddeiliaid perthnasol, fel ymchwilwyr neu gyrff addysg, i gefnogi mentrau ymchwil a datblygu pellach. Fodd bynnag, ni fydd modd adnabod cyfranogwyr unigol nac ysgolion o'r wybodaeth hon.

Hawliau Unigol

O dan UK GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu fel rhan o'r panel cynghori hwn:

- Mynediad at gopi o'ch data
- Cywiro unrhyw wallau yn eich data
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data mewn amgylchiadau penodol
- Gofyn am ddileu data mewn amgylchiadau penodol
- Cwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.org.uk

Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU, cysylltwch â:

Enw: Lisa Clarke

E-bost: Lisa.Clarke@gov.wales

Ffôn: 03000 622356

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales